**Cylch Gorchwyl Pwyllgor:**
**Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol**

Yn adrodd i'r: Senedd

Yn cyfarfod: 3 gwaith y flwyddyn

*Yr adolygiad diwethaf ar y cylch gorchwyl: Mawrth 2019; i'w adolygu nesaf: Mawrth 2021*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil (Cadeirydd)<br>• Cadeirydd y Panel Moeseg Ymchwil<br>• Cadeirydd y Grŵp Nawdd<br>• Uwch Drwyddedai'r Swyddfa Gartref - Bwrdd Adolygu Moeseg a Lles Anifeiliaid<br>• Cynrychiolydd Ymchwil, Busnes ac Arloesi<br>• Cynrychiolydd Uwchraddedigion<br><br>6 aelod.<br><br>Cworwm: Y Cadeirydd, yn ogystal â 3 aelod. | • Cymorth gweinyddol:<br>• Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil<br>• Rheolwr Diogelu Data (yn ôl yr angen)<br>• Cynghorydd Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd (yn ôl yr angen)<br><br>Os yw'r Cadeirydd yn barnu ei bod yn briodol, gellir gwahodd swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd. |

Cyfrifoldebau:

Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn cyflawni swyddogaeth graffu ac mae'n gyfrifol am faterion polisi, arfer, hyfforddiant a llywodraethu yng nghyswllt moeseg ymchwil ac uniondeb ymchwil. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaeth arolygol ar dri is-grŵp, sy'n cynnwys: Panel Moeseg Ymchwil, Grŵp Nawdd, a Bwrdd Adolygu Moeseg a Lles Anifeiliaid.

---

Cylch Gorchwyl:

1. Ystyried ac argymell y dylai'r Senedd gymeradwyo'r isod:
   a. Newidiadau sylweddol i brosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol yng nghyswllt moeseg ac uniondeb;
   b. Newidiadau i Bolisi Uniondeb a Moeseg Ymchwil y Brifysgol;
   c. Adroddiad blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Ymchwil, yn unol â gofynion y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, sy'n dod gerbron y Senedd i'w gymeradwyo a'r Cyngor er gwybodaeth.
   d. Rhoi arweiniad i'r Cyfadrannau ynglŷn â threfniadaeth, swyddogaethau a chyfrifoldebau staff yng nghyswllt cyflawni adolygiadau o foeseg ymchwil a chynnal ymchwil mewn ffordd foesegol.
2. Ystyried a chael yr awdurdod i gymeradwyo'r isod ar ran y Senedd:
   a. Datblygu, gweithredu ac adolygu polisïau a threfniadau gweithredu safonol y Brifysgol sy'n berthnasol i gyflawni a chydymffurfio â Pholisi a Fframwaith Moeseg Ymchwil y Brifysgol;
   b. Derbynioldeb safonau moesegol (e.e. yn y trefniadau gweithredu safonol ar gyfer lles a diogelwch pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil ac yn cael eu cyfeirio ato gan y Gyfadran berthnasol, gan is-grŵp o'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil neu aelodau staff unigol;

c. Cynghori Cyfadrannau/Adrannau ynglŷn â gweithgareddau perthnasol ar gyfer ymgynefino, hyfforddi a datblygu i'r holl staff sydd â chyfrifoldebau ymchwil (ac, os nad oes darpariaeth mewn man arall, anghenion hyfforddiant myfyrwyr);
d. Adroddiadau ac eitemau i'w hystyried gan is-grwpiau sefydledig y Pwyllgor Moeseg Ymchwil;
e. Penodi cynrychiolwyr y Brifysgol ar is-grwpiau'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil;

3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori'r Senedd, neu bwyllgor llywodraethu, fel sy'n briodol ar:

    a. Adroddiadau ar berfformiad sefydliadol yn ymwneud â meysydd gweithredu'r Brifysgol o fewn i faes y Pwyllgor hwn, megis cydymffurfio â gweithdrefnau adolygiad moesegol;
    b. Newidiadau i ddeddfwriaeth ac arfer da yn gysylltiedig â meysydd gweithredu'r Brifysgol o fewn maes y pwyllgor;
    c. Diwygiadau Swyddfa Uniondeb Ymchwil y Deyrnas Gyfunol (UKRIO) i'r Weithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn mewn Ymchwil;
    d. Newidiadau i'r Weithdrefn a'r Polisi Ymchwil Sensitif (yn ôl gofynion cyflawni Dyletswydd Atal (*Prevent*));
    e. Adroddiadau yn crynhoi unrhyw honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil ymhlith staff ac uwchraddedigion ymchwil, gan gynnwys prosesau'n gysylltiedig â Gweithdrefn yr Ymchwiliad i Gamymddwyn mewn Ymchwil;
    f. Cofnodion ac adroddiadau o'r Panel Moeseg Ymchwil, y Grŵp Nawdd, a Bwrdd Adolygu Moeseg a Lles Anifeiliaid.

---

<u>Gweithredu</u>

Os barnwyd bod gan brosiect a adolygwyd gan yr is-grŵp perthnasol deilyngdod deallusol, ond bod ganddo hefyd beryglon uchel posibl i'r Brifysgol oherwydd sensitifrwydd yr agweddau moesegol, bydd angen i'r Pwyllgor roi gwybod i'r Is-Ganghellor ac i'r Ymchwilydd.

Bydd y Pwyllgor yn cytuno ar adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Senedd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio, yn amlinellu'r materion allweddol a gyflawnwyd gan y Pwyllgor yn y flwyddyn academaidd flaenorol, gan ganolbwyntio'n benodol ar benderfyniadau a wnaeth y Pwyllgor ar ran y corff llywodraethu yn unol â'r awdurdod a ddirprwywyd iddo yn rhan o'r cylch gorchwyl hwn.

Gall y pwyllgor ystyried materion a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor, y Senedd (trwy'r Is-Ganghellor), neu Weithrediaeth y Brifysgol.

Os yw'r pwyllgor yn cytuno ar argymhelliad i'w gyflwyno i'r Cyngor ynglŷn â mater academaidd, rhaid cyflwyno'r argymhelliad i'r Senedd yn gyntaf i gael eu sylwadau cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.